



Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working

Annual Governance Statement 2015-16

Cynghrair o 6 awdurdod lleol yw ERW a reolir gan gyd-bwyllgor cyfansoddiadol cyfreithiol.
Y nod yw gweithredu strategaeth a chynllun busnes rhanbarthol cytunedig a chefnogi gwelliant ysgolion.

ERW is an alliance of 6 local authorities governed by a legally constituted joint committee.
Its aim is to implement the agreed regional strategy and business plan to support school improvement.



EIN RHANBARTH AR WAITH (ERW)

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2015-16

1.0 Cwmpas Cyfrifoldebau

- 1.1 Ailsefydlwyd Consortiwm ERW ym mis Ebrill 2014, yn dilyn rhyddhau'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gwella Ysgolion (Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2014). Mae'r Model Cenedlaethol yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o gonsortia gwella ysgolion rhanbarthol. Ailffurfiwyd Consortiwm ERW ym mis Ebrill 2014. Mae'r Consortiwm yn cynnwys chwe Awdurdod Lleol: Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro, Powys, Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, a Dinas a Sir Abertawe. Pwrpas ERW yw darparu gwasanaeth gwella ysgolion cyson, integredig, a phroffesiynol ar gyfer plant a phobl ifanc mewn amrywiaeth o sefydliadau yn y chwe Awdurdod Lleol.
- 1.2 Mae Cabinet pob priod Awdurdod Lleol yn y Rhanbarth wedi mabwysiadu'r Cytundeb Cyfreithiol o ran y modd y caiff ERW ei weithredu a'i lywodraethu. Caiff ERW ei lywodraethu gan Gydbwyllgor a sefydlwyd yn gyfreithiol, y mae ei aelodaeth yn cynnwys Arweinwyr y chwe Awdurdod Lleol.
- 1.3 Mae gan y chwe Awdurdod Lleol gyfrifoldeb ar y cyd am sicrhau y caiff busnes y consortiwm ei gyflawni'n unol â'r gyfraith a safonau priodol, ac am sicrhau y caiff arian cyhoeddus ei ddiogelu, ei gofnodi'n briodol, a'i ddefnyddio mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol. Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i wneud trefniadau i wella'r ffordd y caiff swyddogaethau'r consortiwm eu harfer yn barhaus, gan ystyried effeithiolrwydd strategol, ansawdd gwasanaeth, argaeledd gwasanaeth, tegwch, cynaliadwyedd, effeithlonrwydd ac arloesi.
- 1.4 Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae ERW hefyd yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith i lywodraethu ei fusnes, sy'n sicrhau y caiff swyddogaethau'r consortiwm eu harfer yn effeithiol, gan gynnwys trefniadau i reoli risg a sicrhau system rheolaeth fewnol gadarn.
- 1.5 Swyddog Adran 151 sy'n gyfrifol am weinyddu trafodion ariannol ERW yn briodol, yn ogystal â sicrhau bod y trefniadau ariannol sydd ar waith yn cydymffurfio â gofynion llywodraethu Datganiad CIPFA ar *Rôl y Prif Swyddog Cyllid Mewn Llywodraeth Leol*.
- 1.6 Cymeradwyodd y Cydbwyllgor God Llywodraethu Corfforaethol Rhanbarthol ERW yn ei gyfarfod ar 18 Mai 2015. Mae'r Cod a fabwysiadwyd yn gyson ag egwyddorion

Fframwaith CIPFA/SOLACE, sef *Delivering Good Governance in Local Government*. Bydd y Cod Llywodraethu Corfforaethol Rhanbarthol yn cael ei ddiweddararu yn 2016-17 i adlewyrchu canllawiau CIPFA, sef *Delivering Good Governance in Local Government: Framework (2016 Edition)*, yn ogystal â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- 1.7 Mae'r Datganiad hwn yn egluro'r modd y mae ERW yn cydymffurfio â'r Cod ac yn bodloni gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 ac arfer cysylltiedig.

2.0 **Pwrpas y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol**

- 2.1 Llywodraethu corfforaethol yw'r systemau, y prosesau, y diwylliannau a'r gwerthoedd sy'n llywio ERW ac yn ei reoli, y mae'n atebol i arweinwyr ysgol, llywodraethwyr ac athrawon drwyddynt, ac yn eu defnyddio i ymgysylltu â hwy a chynnig cymorth iddynt. Mae a wnelo llywodraethu â'r modd y mae cyrff llywodraeth leol yn sicrhau eu bod yn gwneud y pethau cywir, yn y ffordd gywir, ac ar gyfer y bobl gywir, a hynny mewn modd amserol, cynhwysol, agored ac atebol.

- 2.2 Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan bwysig o'r fframwaith hwnnw, a'i nod yw rheoli risg hyd at lefel resymol. Ni all ddileu pob risg o fethu cyflawni polisiau, nodau ac amcanion, felly, dim ond sicrwydd rhesymol y gall ei roi yn hytrach na sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion, i werthuso tebygolrwydd ac effaith bosibl y risgiau hynny, ac i'w rheoli mewn modd effeithlon, effeithiol a darbodus.

3.0 **Y Fframwaith Llywodraethu**

Isod ceir crynodeb o brif elfennau fframwaith llywodraethu ERW:

3.1 Cynllun Busnes Rhanbarthol

Yn unol â'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol, mae'r Rhanbarth wedi llunio Cynllun Busnes ar gyfer 2016-2019 sy'n nodi blaenoriaethau sy'n adlewyrchu ac yn llywio blaenoriaethau'r Cynllun Integredig Sengl ar gyfer pob Awdurdod Lleol. Mae blaenoriaethau'r Rhanbarth ar gyfer 2016-19 wedi'u grwpio'n dair thema strategol:

- Arwain Dysgu
- Dysgu ac Addysgu
- Cymorth ar gyfer Dysgu

3.2 Y Cydbwyllgor

Caiff ERW ei lywodraethu gan Gydbwyllgor a sefydlwyd yn gyfreithiol, y mae ei aelodaeth yn cynnwys Arweinwyr y chwe Awdurdod Lleol. Mae'r Cydbwyllgor yn gyfrifol am benodi'r Awdurdod Arweiniol ar gyfer pob un o'r Swyddogaethau, e.e. Gwasanaethau Cyfreithiol, Caffael, Cyllid, Archwiliad Mewnol, Adnoddau Dynol, TG, ac ati. Mae'r Cydbwyllgor yn cyfarfod bob tymor.

3.3 Y Bwrdd Gweithredol

Caiff y Bwrdd Gweithredol ei benodi gan y Cydbwyllgor, ac mae ganddo bwerau dirprwyedig ar gyfer gwneud penderfyniadau gweithredol. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cynnwys y Rheolwr Gyfarwyddwr, Cyfarwyddwyr Addysg y chwe Awdurdod Lleol, arbenigwyr gwella ysgolion allanol, a chynrychiolwyr Penaethiaid.

3.4 Y Bwrdd Gweithredu Strategaeth

Mae'r Bwrdd Gweithredu Strategaeth yn gyfrifol am roi Cynllun Busnes ERW ar waith. Mae aelodaeth y bwrdd yn cynnwys holl Brif Swyddogion Addysg yr Awdurdodau Lleol, a chaiff ei gadeirio gan y Rheolwr Gyfarwyddwr.

3.5 Y Bwrdd Ymgynghorol

Mae aelodaeth y Bwrdd Ymgynghorol yn cynnwys y swyddogaethau cefnogol a statudol, sy'n cynnwys Adnoddau Dynol, Cyfreithiol, Craffu, Cyllid, Data, Rheoli Risg, ac Archwilio Mewnol. Diben y Bwrdd Ymgynghorol yw cefnogi a chynghori ERW a'i uwch-dîm rheoli, a sicrhau bod y sefydliad yn dilyn proses ddyledus a chyfreithiol wrth gyflawni ei swyddogaethau craidd. Mae'r Grŵp Data a'r Swyddogion Craffu yn darparu cymorth ychwanegol i'r uwch-dîm rheoli wrth gyflawni ei gyfrifoldebau.

3.6 Y Fframwaith Craffu ac Atebolrwydd Democrataidd

Cymeradwyodd y Cydbwyllgor drefniadau craffu ac atebolrwydd democrataidd ERW ar 18 Mai 2015. Mae hyn yn diffinio'r disgwyliadau o ran trefniadau craffu ac atebolrwydd ar y cyd effeithiol i randdeiliaid allweddol sy'n rhan o broses atebolrwydd democrataidd pob Awdurdod Lleol cyfansoddol.

Mae aelodau'r Cydbwyllgor yn defnyddio eu gwybodaeth leol i gynrychioli eu Hawdurdod Lleol ar faterion sy'n bwysig i'r cymunedau amrywiol. Craffu yw'r broses lle mae'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn atebol i bobl leol, trwy eu cynrychiolwyr etholedig, am wella deilliannau. Nid yw Pwyllgorau Craffu Awdurdodau Lleol yn gwneud penderfyniadau, ond maent yn ceisio dylanwadu ar y rhai sy'n gwneud hynny, trwy ystyried y prif faterion sy'n effeithio ar yr ardaloedd, a gwneud argymhellion o ran sut y gellir gwella gwasanaethau.

Mae gan Bwyllgorau Craffu'r Awdurdodau Lleol nifer o rolau gwahanol, gan gynnwys:

- Dwyn y Cydbwyllgor i gyfrif ac adolygu ei benderfyniadau;
- Craffu ar waith consortiwm ERW;
- Helpu i ddatblygu polisiau newydd a datblygu'r rhai sydd mewn bodolaeth; a
- Monitro cyllidebau a pherfformiad.

Mae Blaenraglen Waith Ranbarthol wedi'i sefydlu, a gydgysylltir yn ganolog.

Yn aml, gall hyn arwain at argymhellion a gaiff eu cydgysylltu'n ganolog fel bod unrhyw gamau y mae angen eu cymryd yn cael eu nodi a'u rheoli'n briodol.

3.7 Archwilio Mewnol

Cyngor Sir Penfro, fel yr Awdurdod Arweiniol ar gyfer Cyllid, sy'n darparu'r gwasanaeth archwilio mewnol i ERW. Rôl y gwasanaeth Archwilio Mewnol yw rhoi sicrwydd annibynnol ynghylch effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu, rheolaeth fewnol, rheolaeth ariannol, a rheoli risg sydd ar waith. Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, cytunwyd ar gynllun gwaith sy'n seiliedig ar risg â'r Swyddog Adran 151 a'r Rheolwr Gyfarwyddwr, ac fe'i cymeradwywyd gan y Cydbwyllgor ym mis Tachwedd 2016. Daeth Pennaeth Archwilio Mewnol i'r casgliad, yn amodol ar amrywiad rhwng meysydd archwilio unigol a'r angen am welliant a datblygiad pellach mewn rhai meysydd, y gellir, yn gyffredinol, roi sicrwydd sylweddol ynghylch effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu, rheolaeth fewnol, rheolaeth ariannol, a rheoli risg sydd ar waith.

3.8 Swyddfa Archwilio Cymru

Penodwyd Swyddfa Archwilio Cymru yn archwilwyr allanol ar gyfer ERW. Cytunwyd ar gynllun gwaith archwilio a fydd yn cynnwys:

- Archwilio ac ardystio a yw'r datganiadau ariannol yn gofnod 'gwir a theg';
- Asesu a oes trefniadau priodol wedi'u gwneud i sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau; a
- Chynnal astudiaethau i wneud argymhellion ar gyfer gwella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, er mwyn gwella trefniadau ariannol a threfniadau rheoli eraill.

3.9 Darparwyr Sicrwydd Eraill

Bydd Estyn, ar y cyd â Swyddfa Archwilio Cymru, yn cynnal Arolygiad Rhanbarthol ym mis Mehefin 2016.

4.0 **Adolygu Effeithiolrwydd**

4.1 Mae ERW yn gyfrifol am gynnal, o leiaf unwaith y mis, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu, yn cynnwys y system rheolaeth fewnol. Cafodd yr adolygiad o effeithiolrwydd ar gyfer 2015-16 ei lywio gan y Rheolwr Gyfarwyddwr, y Cyfarwyddwr Arweiniol, y Cyfarwyddwyr Addysg Rhanbarthol, a'r Swyddogion Statudol yn y consortiwm sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, ynghyd â gwaith y gwasanaeth Archwilio Mewnol, Rheoli Risg ac asiantaethau arolygu ac arolygiaethau eraill. Roedd yr adolygiad o effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu ERW yn cynnwys sicrhau'r canlynol:

- Caiff polisiâu ERW eu rhoi ar waith yn ymarferol
- Caiff gwasanaethau o ansawdd uchel eu darparu yn effeithlon ac yn effeithiol
- Caiff gwerthoedd a safonau moesegol ERW eu bodloni
- Cydymffurfir â chyfreithiau a rheoliadau
- Cedwir at brosesau gofynnol
- Mae datganiadau ariannol a gwybodaeth perfformiad arall a gyhoeddir yn gywir a dibynadwy
- Caiff adnoddau dynol, ariannol ac amgylcheddol, yn ogystal ag adnoddau eraill, eu rheoli'n effeithlon ac yn effeithiol.

4.2 Cafwyd sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd y systemau ariannol allweddol a ddefnyddir gan ERW, o'r gwaith a wneir gan wasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Penfro, yn ogystal â datganiad sicrwydd gan Swyddog Adran 151.

4.3 Roedd adolygiad y gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2015-16 yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Camau dilynol i'r argymhellion blaenorol, gan gynnwys y Blaenoriaethau ar gyfer Gwella a nodir yn Natganiad Llywodraethu Blynnyddol 2014-15;
- Trefniadau Llywodraethu;
- Cydymffurfio â'r Ysgol Cymorth;
- Trefniadau a Deilliannau Cyllid (yn benodol y Grant Amddifadedd Disgyblion);
- Trefniadau Craffu.

Rhoddodd adolygiad y gwasanaeth Archwilio Mewnol ddyfarniad sicrwydd sylweddol ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu, rheolaeth

fewnol, rheoli risg, a rheolaeth ariannol sydd ar waith. Mae meysydd y mae angen eu wella ymhellach wedi eu cynnwys yn y Blaenoriaethau ar gyfer Gwella yn Adran 5.

5.0 Materion Llywodraethu o Bwys a Blaenoriaethau ar gyfer Gwella

Nid oes unrhyw faterion llywodraethu o bwys wedi'u nodi; fodd bynnag, mae yna nifer o flaenoriaethau ar gyfer gwella ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

- 5.1 Parhau i feithrin gallu o ran arweinyddiaeth mewn ysgolion, er mwyn sicrhau cadernid yn y dyfodol agos ac yn y tymor canolig a'r hirdymor. Cynyddu cyfran yr ysgolion sy'n amlygu nodweddion o fath A a B ar gyfer arweinyddiaeth ac addysgu o dan y System Genedlaethol ar gyfer Categoriaddio.
- 5.2 Mae angen cefnogaeth bellach i sicrhau gwelliant parhaus ym mherfformiad Cyfnod Allweddol 4 yn Sir Benfro.
- 5.3 Bydd y Cytundeb Cyfreithiol yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn 2016-17.
- 5.4 Bydd y Cod Llywodraethu Corfforaethol Rhanbarthol yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau i adlewyrchu canllawiau diweddaraf CIPFA, sef *Delivering Good Governance in Local Government: Framework (2016 Edition)*, yn ogystal â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- 5.5 Rheoli Risgiau Busnes – gwnaeth adolygiad y gwasanaeth Archwilio Mewnol argymhellion i gryfhau'r broses Rheoli Risgiau Busnes, e.e. rhaid cyfleu risgiau'n glir i ddisgrifio'r digwyddiad, y canlyniad, a'r effaith, pe byddai'n digwydd. Dylai fod methodoleg sgorio wedi'i sefydlu i sicrhau cysondeb o ran asesu tebygolrwydd ac effaith ledled y rhanbarth. Mae angen gwella'r broses uwchgyfeirio ac isgyfeirio rhwng ERW a phob un o'r chwe Awdurdod Lleol hefyd.
- 5.6 Trefniadau Cyllid Grant – mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol ddarparu sicrwydd, bob chwarter, fod gwariant yn cydymffurfio â thelerau ac amodau'r grantiau. Ni chydymffurfiodd pob Awdurdod â'r gofyniad hwn o fewn yr amserlen ddisgwyliedig. Er mwyn sicrhau bod yr arian yn cael ei wario'n briodol, a bod meysydd nas cydymffurfir â hwy yn cael eu canfod yn gynnar, dylai pob Awdurdod Lleol gwblhau adolygiadau prydlon a thrylwyr, gan roi sicrwydd i Sir Benfro, sef yr Awdurdod Arweiniol.
- 5.7 Trefniadau Craffu – mae gwelliannau pellach yn ofynnol i sicrhau bod proses gadarn yn cael ei sefydlu i fonitro'r argymhellion a wneir gan Bwyllgorau Craffu, ac i sicrhau bod adborth yn cael ei ddarparu.
- 5.8 Parhau i weithio'n strategol gyda Rhanbarthau eraill er mwyn bod yn well sail i bolisi cenedlaethol, ac i ddylanwadu arno, gan chwilio am gyfleoedd i rannu arfer gorau a chyflawni arbedion effeithlonrwydd ar yr un pryd.

Rydym yn ymrwymedig i weithredu'r gwelliannau a amlinellir uchod er mwyn helpu i gyflawni'r deilliannau a fwriadwyd. Rydym yn fodlon y bydd y camau hyn yn mynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd gan ein darparwyr sicrwydd mewnol ac allanol.

Llofnodwyd gan Mark James, Prif Weithredwr Arweiniol



Dyddiad: 15/07/2016

Llofnodwyd gan Alun Thomas, Cadeirydd y Cydbwyllgor



Dyddiad: 15/07/2016